# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 30 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(219)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau]

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes]

**Cynnig i ethol aelodau i bwyllgorau**

**NDM5588 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) William Powell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru);

(ii) Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Cyllideb Ddrafft 2014-15

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Grwp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Ddulliau Addysgu Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth

**5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Swyddogion Cymorth Cymunedol - Flwyddyn yn Ddiweddarach (30 munud)**

**6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd mewn perthynas â darpariaethau sy'n ymwneud â'r drosedd o gam-drin neu esgeulustod bwriadol gan weithwyr gofal (15 munud)**
**NDM5540 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n ymwneud â throsedd esgeulustod bwriadol neu gamdriniaeth gan ofalwyr, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Gellir cael copi o'r Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd yma:

http://services.parliament.uk/bills/2014-15/criminaljusticeandcourts.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7 Dadl: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus (60 munud)**
**NDM5581 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod pwysigrwydd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diogelu cyllid ac annibyniaeth golygyddol darlledwyr iaith Gymraeg.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu:

a) y dylid creu corff llywodraethu datganoledig o fewn Ymddiriedolaeth y BBC yn y DU;

b) y dylid penodi cynrychiolydd Cymru ar Ymddiriedolaeth y BBC drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; ac

c) y dylai bwrdd Ofcom gynnwys aelod sydd â chyfrifoldeb penodol dros gynrychioli Cymru.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid datganoli trwyddedu radio cymunedol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi trydydd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom y bwriedir ei gyhoeddi yr haf nesaf.

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rôl y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae o ran cynyddu cyfranogiad yn y broses wleidyddol a'r dylanwad y maent yn ei gael ar fywyd diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau dyfodol yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**Gwelliant 7 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ystyriaeth o fecanweithiau i sicrhau atebolrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r Cynulliad hwn yn ogystal ag i Senedd y DU.

**Gwelliant 8 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y dirywiad mewn rhaglennu lleol ar radio masnachol.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Hydref 2014

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Medi 2014 i'w hateb ar 30 Medi 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â dementia? OAQ(4)1861(FM)

**2. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â masnacheiddio a rhywioli plentyndod? OAQ(4)1862(FM)

**3. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effaith llwybr du arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd ar fusnesau a swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y ddinas? OAQ(4)1854(FM)

**4. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar weithredu safonau'r Gymraeg? OAQ(4)1859(FM)**W**

**5. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiwethdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru? OAQ(4)1857(FM)

**6. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar argaeledd triniaeth canser yng Nghymru? OAQ(4)1853(FM)

**7. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y broses o gyflwyno band eang yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1863(FM)

**8. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ysbytai cymuned yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1858(FM)**W**

**9. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiwygio llywodraeth leol? OAQ(4)1864(FM)

**10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyfleusterau trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1850(FM)

**11. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datganiad polisi, 'Iaith Fyw: iaith byw - bwrw mlaen'? OAQ(4)1852(FM)**W**

**12. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynyddu cyllideb y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)1860(FM)**W**

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gau ysgolion? OAQ(4)1855(FM)

**14. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar weithredu adroddiad comisiwn Williams ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)1851(FM)

**15. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar Twf Swyddi Cymru? OAQ(4)1856(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 7 Hydref 2014 a dydd Mercher 8 Hydref 2014**
**Dydd Mawrth 14 Hydref 2014 a dydd Mercher 15 Hydref 2014**
**Dydd Mawrth 21 Hydref 2014 a dydd Mercher 22 Hydref 2014**
*******************************************************************

**Dydd Mawrth 7 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Y Bil Cynllunio (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg i Gymru (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Lansio cylch cyllido Buddsoddi-i-Arbed 2014 (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Dadreoleiddio: diwygio mewn perthynas â deddfwriaeth blaendaliadau tenantiaeth (15 munud)

**Dydd Mercher 8 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014 (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidol (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwsanaethau orthodontig yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Keith Davies (Llanelli) (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adfywio Canol Trefi (30 munud)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd (45 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Iawndal TB - Y Camau Nesaf (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (15 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)

**Dydd Mercher 22 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Lynne Neagle (Torfaen) (30 munud)